Llwybr Ceiriog Uchaf

Disgrifiad o'r Llwybr

Fe'i heglurir mewn cyfeiriad gwrthglocwedd yn dechrau yn Llanarmon Dyffryn Ceiriog. Cyfeirnod Grid SJ 157 328 (Lledred 52.886482 Hydred -3.253547).

Mae pob pellter ac uchder yn lled gywir.

Gan dybio eich bod yn cychwyn o Lanarmon DC, cymrwch y ffordd tua'r de allan o'r pentref gyda gwesty'r Hand ar y chwith.

Dilynwch y ffordd i fyny'r allt am 1 filltir (1.5 km). Ychydig cyn i chi gyrraedd cyffordd yn y ffordd gyda rheiliau gwyn, trowch i'r chwith i mewn i gae. Dilynwch drac am 2 filltir (3 km) at lle mae'r traciau'n croesi. Ceir ambell rigol ddofn, cymrwch ofal!

Yn lle mae'r traciau'n croesi, ewch ymlaen i lawr allt raddol at giât sy'n arwain i ffordd darmac. (Cymrwch ofal wrth fynd allan i'r ffordd oherwydd y troad dall ar y chwith i chi). Ar ôl pasio drwy'r giât, trowch i'r dde a dilynwch ffordd darmac am 1/3 milltir (550 m). Fel y mae'r ffordd yn mynd i'r dde, cymrwch y troad ar y chwith. Bron yn syth, trowch i'r dde i fyny'r allt gan ddilyn ffordd darmac arall. Ar ôl 1/2 milltir (810 m), mae'r ffordd yn dechrau mynd i'r chwith. Fel y mae'n sythu, trowch yn sydyn i'r dde gan basio fferm Cefn-y-braich-uchaf. (Rhybudd: Wrth yr ail gwt ieir ceir seilo porthiant anifeiliaid all danio'n ddirybudd a gallai ddychryn eich ceffyl).

Yn lle mae'r ffordd yn fforchio, cymrwch y trac i'r chwith gan fynd i fyny'r allt. Dilynwch y trac am 1/2 milltir (810 m) at giât i mewn i gae agored. (Yma byddwch yn cyfarfod Llwybr Ceiriog yn dod o'r cyfeiriad arall). Cymrwch y trac glaswellt ar draws y cae sydd wedi'i farcio â physt adlewyrchu. 55 llath (50 m) cyn cyrraedd giât ar ffordd darmac, trowch i'r chwith ar y trac caregog. Dilynwch y trac caregog gan fynd i lawr yr allt. Yn lle mae'r trac yn fforchio cadwch i'r dde, ar drac hyd nes y bydd yn troi'n ffordd darmac ger gwaelod allt. Yn union cyn y bont dros Afon Ceiriog, trowch i'r dde drwy giât i fynd ar yr hen dramffordd. (Nodwch: Llwybr ceffylau caniataol yw'r dramffordd, os yw wedi cau, dilynwch y ffordd i B4500. Trowch i'r dde, ewch ymlaen at y troad ar y chwith gyferbyn ag Oriel Pandy Mill). Dilynwch y dramffordd a 110 llath (100 m) ar ôl croesi'r bont dros yr afon, cymrwch y lôn darmac i mewn i Bandy gydag Oriel Pandy Mill ar yr ochr chwith.

Gall fod yn brysur iawn yma felly croeswch yn ofalus gan gymryd y lôn darmac gyda'r arwydd 'Dim Ffordd Drwodd'. Ar ôl tua 1/2 milltir (810 m), fel y mae'r lôn yn dechrau mynd i lawr, cymrwch y trac sy'n mynd i fyny'r allt ar y dde. Ewch

ymlaen i fyny trac cerrig serth drwy blanhigfa coed conwydd nes cyrraedd giât ar y dde ar ôl nant. Ewch drwy'r giât gan ddilyn hen lwybr pynfeirch oedd yn mynd ar draws Mynyddoedd y Berwyn. Yn y gyffordd 'T', trowch i'r dde ac ar ôl 100 llath (90 m) ewch yn syth ymlaen i fyny'r allt gan anwybyddu'r prif drac fel y mae'n mynd i'r chwith. Yn y ffordd darmac, trowch i'r chwith. Ar ôl pasio troad ar y dde, dilynwch y ffordd i lawr yr allt gyda'r arwydd 'Dim Ffordd Drwodd'. Ar waelod yr allt, trowch yn union i'r chwith cyn y blwch ffôn a'r blwch llythyrau gan basio Eglwys Bresbyteraidd Saron. Ar ôl 170 llath (150 m), lle mae'r lôn darmac yn mynd 90° i'r dde, ewch ymlaen i fyny'r allt ar y trac garw lle ceir giatiau. Dilynwch ymlaen drwy'r giatiau i fyny ar rostir agored. Rydych bellach yn teithio ar 'Sarn Sws', sef ffordd hynafol a arferai fynd o Gaersws drwodd i Gaer. Mewn rhai mannau ceir rhigolau dwfn oherwydd difrod gan gerbydau, felly cymrwch ofal ond cadwch mor agos i'r trac â phosib.

Ewch ymlaen ar y trac dros y rhos a drwy giât gyda'r goedwig ar y chwith. (Fel yr ewch ymlaen tuag at Lanarmon, edrychwch i fyny i'r dde tuag at ben bryn o garreg wen sy'n ymddangos fel pe bai brathiad wedi'i gymryd ohono. Tybiwyd ar un adeg mai Gwersyll Rhufeinig oedd hwn, ond bellach cafwyd mai caer â gwrthglawdd o Oes yr Haearn ydyw). Ym Mhen yr Allt, mae'r trac wedi'i darmacio. Y fferm nesaf ar y chwith i chi, Pen-y-Bryn, oedd cartref John Ceiriog Hughes, y bardd Cymraeg enwog. Ewch ymlaen ar y ffordd darmac gan fynd i lawr yr allt. Ar ôl 160 llath (150 m) mae'r ffordd yn mynd i lawr yn serth iawn, cymrwch ofal gan fod y ffordd yn llithrig mewn rhai mannau: os oes angen, dewch oddi ar gefn eich ceffyl a'i arwain. Ar waelod yr allt ewch yn syth ymlaen dros bont i bentref Llanarmon DC i'ch man cychwyn.

Mae rhan o'r llwybr hwn yn gorgyffwrdd â 'Llwybr Ceiriog', y mae taflen i'w chael ynghylch hwnnw hefyd.

Nodiadau Cefndir am yr Ardal Leol

Ar y cyfan, mae'r gylchdaith 14 milltir hon yn dilyn y tir uchel sy'n amgáu dyfnder Dyffryn Ceiriog i'r de o Bandy. Lefel yr afon ym Mhandy ydi ~665 troedfedd (203 m), ac mae hon yn codi'n sydyn i fyny'r afon i bron i 900 troedfedd (274 m) yn Llanarmon DC. I'r dwyrain o'r dyffryn, mae'r llwybr yn codi i dros 1400 troedfedd (427 m), ac i'r gorllewin, i ymhell dros 1500 troedfedd (457 m). Mae'r dirwedd yn amrywiol ac yn odidog - gyda'r golygfeydd yn wych. Ceir dolydd toreithiog, dyffrynnoedd dwfn a choetiroedd cymysg yn y lefelau is ynghyd â rhosydd gwyntog agored uwchben. Mae'r bywyd gwyllt yn helaeth, gallwch ddisgwyl gweld y gylfinir, y boncath, y gigfran a'r ehedydd yn gwmni i chi. Bydd ambell un ffodus yn gweld hebogau, barcudiaid coch a grugieir hefyd. I'r de o Bandy mae poblogaeth y dyffryn yn denau iawn, gyda bron i bawb yn byw ger lefel yr afon, felly disgwyliwch weld neb ar rannau uchaf eich taith!

Y cefn yng Nghefn-hir-fynydd ar ymyl deheuol y llwybr yw'r cefn deuddwr mawr

rhwng dalgylchoedd Afon Ceiriog ac Afon Tanat. Bydd y glaw i'r de yn llifo i Fryste, a thua'r gogledd bydd yn cyrraedd Caer. Mae'r llecyn hwn hefyd yn diffinio'r ffin rhwng Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae Dyffryn Ceiriog ei hun yn ardal a gysgodir rhag y glaw i ryw raddau, a warchodir rhag y gwyntoedd de-orllewinol gwlyb gan dir uwch. Hyd yn oed os yw'n glawio, mae'n gysur gwybod ei fod yn drymach y tu draw i'r bryn!

Parcio a Stablau

Er bod disgrifiad y llwybr yn cychwyn ac yn gorffen yn Llanarmon DC, mae'n bosib hefyd 'parcio a chychwyn' mewn mannau eraill, dangosir y rhain ar y map sydd wedi'i farcio â naill ai P neu PP (parcio preifat). Lle y mae wedi'i farcio gyda PP, mae'n hanfodol i chi ffonio'n gyntaf i wirio ei fod ar gael. Mae rhywfaint o stablau ar gael hefyd, a ddangosir fel S ar y map. Rhaid bwcio hyn hefyd ymlaen llaw. Yn ogystal, ceir mannau parcio yng Nghefn Coch (Cyfeirnod Grid SJ 241 330, Lledred 52.889531 Hydred -3.128783).

Holwch y darparwyr ynghylch beth sydd ar gael cyn mynd – gweler y map am y cyfeiriad:-

Fferm Springhill (01691) 718406
www.springhillfarm.co.uk

Gwesty'r West Arms, Llanarmon (01691) 600665
http://www.thewestarms.com/

Pellter

Mae'r llwybr yn 14 milltir o hyd a dylai gymryd o 3 i 4 awr i'w gwblhau ar gefn ceffyl. Mae'r map yn dangos bob un o'r is-ffyrdd a'r llwybrau ceffylau, rhag ofn eich bod yn dymuno dilyn eich llwybr eich hun. I gerddwyr, mae'r llwybrau hefyd yn cysylltu â rhwydwaith ardderchog o lwybrau troed.

Amodau

Mae'r llwybr yn dilyn ffyrdd gwledig di-ddosbarth ynghyd ag is-ffyrdd a llwybrau ceffylau. Mae peth o'r llwybr yn rhychog ac yn defnyddio llwybrau culion felly byddwch yn ofalus iawn.

Cyfeirbwyntiau

Mae'r llwybr wedi'i farcio ym mhob cyffordd gyda symbol (gweler yr allwedd ar gyfer map y llwybr). Disgrifir y llwybr mewn cyfeiriad gwrthglocwedd o'r man cychwyn / gorffen. Ceir nifer dda o gyfeirbwyntiau ac arwyddion ar yr hawliau tramwy.

Mapiau

Ar gyfer yr ardal yn gyffredinol, defnyddiwch daflenni Landranger 125 a 126 yr Arolwg Ordnans 125 a 126. Am ragor o fanylion, gweler taflen Explorer 255.

Lluniaeth

Ceir tafarnau yn Llanarmon DC (y West Arms a Gwesty'r Hand) a Glyn Ceiriog (amryw westai/siopau)

Llety

Ceir ystod o lety da yn Nyffryn Ceiriog. Cyfeiriwch at y daflen amgaeedig am ragor o fanylion. Treuliwch ychydig o ddyddiau yma! Ceir llwybrau eraill ar gyfer marchogion, beicwyr a cherddwyr, ac ni chewch le gwell i ymlacio ynddo!

Cod Cefn Gwlad Dyffryn Ceiriog

Mwynhewch gefn gwlad a pharchwch ei fywyd a'i waith
Rhaid gwarchod rhag bob perygl o dân
Cadwch giatiau sydd ar agor ar agor a rhai sydd ar gau ar gau
Cadwch gŵn ar dennyn bob amser
Cadwch ar hawliau tramwy cyhoeddus
Defnyddiwch giatiau a chamfeydd i groesi ffensys, gwrychoedd a waliau
Gadewch lonydd i dda byw, cnydau a pheiriannau
Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi
Helpwch i gadw bob dŵr yn lân
Rhaid diogelu bywyd gwyllt, planhigion a choed
Byddwch yn arbennig o ofalus ar ffyrdd gwledig
Peidiwch â gwneud unrhyw sŵn diangen
Gall buwch efo llo fod yn beryglus
Byddwch yn arbennig o ofalus yn y tymor ŵyna (yn ystod Mawrth ac Ebrill yn lleol)

Ffonau Symudol

Oherwydd tir yr ardal, fel arfer nid oes modd trosglwyddo a derbyn signal ffôn.

Rhoi gwybod ynghylch problemau gyda Hawliau Tramwy

Cysylltwch ag Adran Hawliau Tramwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 01978 292000

Gwybodaeth Gefndir

Taflen wreiddiol a gynhyrchwyd gan Bartneriaeth y Waun a Dyffryn Ceiriog a Chymdeithas Llwybrau Ceffylau Wrecsam a'r Cylch gyda chymorth gwerthfawr gan wirfoddolwyr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Groundwork Wrecsam.

Testun gan Andrew Kelly

Rhai nodiadau ar hanes lleol

Cafodd pentref Llanarmon Dyffryn Ceiriog ei enw ar ôl Sant Garmon, Esgob Ffrengig o'r 5ed Ganrif. Mae mynwent eglwys Sant Garmon yn cynnwys 'twmpath pregethu' y gellid fod wedi'i ddefnyddio gan y Sant, a chadarnhawyd fod dwy goeden ywen gerllaw dros 1000 o flynyddoedd oed.

"A spot of rarest beauty … thus delectable heaven … where so much is glorious, picturesque and photographically possible, it becomes a matter of utmost difficulty to choose a subject". The Amateur Photographer and Photographic News – Awst 21ain 1916

Ymhlith yr amryw sgarmesau ar y ffin, gorchfygwyd y Brenin Harri II ym 1165, a daeth ei lwybr encilio yn hysbys fel 'Sarn Saeson'. Mae'r llwybr hynafol hwn yn cael ei groesi ddwywaith gan Lwybr Ceiriog Uchaf. Roedd y rhan o'r enw Cefn-hir-fynydd bron yn sicr o fod wedi'i defnyddio gan y Brenin a'i fyddin yn ystod y sgarmesau. Mae'n rhan o lwybr cefn uchel oedd yn rhedeg o Groesoswallt dros Fynyddoedd y Berwyn a thu hwnt.

"A more ideal retreat for the town dweller, who desires to rest both brain and obdy amid the lullaby of the bubbling streams and the soothing moods of joyos nature, is is not to be found in the whole of North Wales". Liverpool Daily Post – Tua 1916

Mae Oriel Pandy Mill (http://www.pandymillgallery.com/), sef y Woolpack Inn gynt, yn dyddio'n ôl i 1365 a hon oedd y felin bannu gyntaf yng Nghymru a ddefnyddid i gynhyrchu'r wlanen leol Gymreig enwog gan wehyddion lleol oedd yn

gweithio gartref.

"Threading the Vale of the Ceiriog … I obtained a view of a scene, not of cold grandeur, but of something which I like better, which richly compensated me for the slight trouble I had taken in stepping aside to visit the little bridge". George Borrow – Awdur 'Wild Wales'

Ym 1922 cyflwynodd y Warrington Water Corporation gynlluniau uchelgeisiol i adeiladu dwy gronfa ddŵr fawr yn Nyffryn Ceiriog Uchaf. Pan gyhoeddwyd hyn gyntaf, dywedwyd fod y bobl leol yn ddryslyd ac yn ofnus, ac yna roeddynt yn flin iawn y gellid bygwth eu cartrefi a'u bywoliaeth yn y modd hwn.

Byddai dwy gronfa wedi'u hadeiladu ar y naill ochr i bentref Llanarmon DC. Roedd 'Cronfa Llanarmon' wedi'i chynllunio i gynnwys y rhan fwyaf o'r tir âr uwchben Llanarmon. Byddai wedi ymestyn am filltir a hanner o bwynt oedd fawr ddim pellach na 1000 llath o'r pentref. Roedd Cronfa'r Hendre i fod yn hyd yn oed mwy! Roedd i fod yn ddwy filltir o ran hyd a byddai wedi boddi Tregeiriog. Ymhlith y colledion nodedig fyddai:-

1 Eglwys, 5 Capel, 2 Fynwent 2 Swyddfa Bost, 2 Dafarn, 5 Siop, 1 Gweithdy Gofaint a 82 eiddo arall yr oedd 45 ohonynt yn ffermdai ac yn adeiladau fferm.

Byddai pentrefan Pentre Bach wedi diflannu, fel y byddai hen dŷ o'r enw Dolwen. Dywedir fod yr eiddo hwn yn dyddio'n ôl i'r 12fed ganrif, ac mai Tywysog Cymru, Owain Gwynedd, oedd wedi ei godi ac y bu'n byw ynddo. O'r diwedd, yn Awst 1923, fe wrthodwyd y cynlluniau gan y Senedd, yn bennaf oherwydd gwrthwynebiad cadarn gan Lloyd George.

"The forms and colours, the rocky heights and running waters, that give the Ceiriog Valley its character, its individuality, even amongst the Welsh valleys … such cherished corners of earth should be held inviolable to the end". Ernest Rhys – Golygydd *Everyman's Library*, Rhagfyr 1922.

Sefydlwyd ffatri gaws yn Nhregeiriog. Cafwyd y llaeth o ffermydd yr ardal, enillodd eu cynnyrch wobrau mewn sioeau amaethyddol lleol. Yn anffodus, daeth y cynhyrchu i ben rhai blynyddoedd yn ôl.